

Penmaendewi

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER: PENMAENDEWI, COETAN ARTHUR - 2.7 milltir (4.4 km)
PENMAENDEWI, CARN LLIDI - 1.4 milltir (2.3 km), allan ac yn ôl

CLUDIANT CYHOEDDUS: *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404
(*tymhorol, galw a theithio)


CAUTION: RHAID CADW CŴN AR DENNYN ym Mhorthmawr Uchaf,
cywion ieir buarth yn crwydro

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffrwd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiâu

ALLWEDD

- Penmaendewi, Coetan Arthur
- Penmaendewi, Carn Llidi
- Llywbr Arfordir Sir Benfro
Llywbr Cenedlaethol
- - - Llywbrau Cyhoeddus
- P** Maes Parcio
- WC** Toiledau Cyhoeddus
- Safle Bws



Penmaendewi

Teithiau Byr

Cludiant cyhoeddus: *Celtic Coaster 403, *Strumble Shuttle 404 (*tymhorol, galw a theithio).

Penmaendewi, Coetan Arthur

Pellter: 2.7 milltir (4.4 km)

Cyfeirnod map: SM726279

Cymeriad: Arfordir garw, ymyl clogwyn, bryniau, anifeiliaid.

Mwy o wybodaeth: RHAID CADW CŴN AR DENNYN ym Mhorthmawr Uchaf, cywion ieir buarth yn crwydro.

1 sticil, 1 giât mochyn, llwybrau anwastad, grisiau.

O'r maes parcio, cerddwch yn ôl i fyny'r heol, anwybyddwch y trac cyntaf ar y chwith a throwch i'r chwith heibio i'r maes carafannau. Dilynwch y trac o amgylch i'r dde (dilynwch yr arwydd am olygfan Carn Llidi), trwy fferm, ac arhoswch ar y trac wrth y mynegbost. Dilynwch y trac i'r chwith, yna i'r dde, ac wrth y fforc wrth arwydd 'Penmaendewi/St David's Head' yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cymerwch y llwybr i'r chwith. Arhoswch ar y trac a pharhewch yn syth ymlaen ar ôl y cae diwethaf, pan fydd y trac yn troi yn llwybr. Dilynwch y llwybr i lawr y tyle, gan fynd yn syth ymlaen wrth y croesfannau gyda llwybrau eraill. Pan fyddwch chi'n dod at waelod dyffryn bach, edrychwch ar draws y dyffryn am lwybr sy'n mynd i fyny ochr gyferbyn y dyffryn a chymerwch y llwybr hwn. (Nid oes modd ei weld o'r nant - croeswch y nant, trowch i'r dde ac yna i'r chwith eto arno i'r llwybr amlwg). Ble mae'r llwybr yn dod yn wastad, dilynwch y llwybr yn syth ymlaen i fyny'r tyle, yna cymerwch y llwybr ar y dde wrth y fforc. Ar y brig, mae'r llwybr yn troi i'r chwith. Dilynwch y llwybr a pharhewch i fynd yn syth ymlaen hyd

nes, wrth y fforc, i chi gymryd y llwybr ar y chwith ar waelod y brigiad caregog a'i ddilyn o amgylch i Coetan Arthur. Trowch i'r dde wrth Goetan Arthur tuag at y môr, gan anwybyddu'r llwybrau ar y chwith, nes cyrraedd Llwybr yr Arfordir ar ymyl y clogwyn. Trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr amlwg. Pan fydd y llwybr yn mynd i fyny unwaith eto, arhoswch ychydig bach i'r chwith o fan uchaf y brigiad caregog. Pan fydd y llwybr yn disgyn unwaith eto ac yn lledaenu, cymerwch y llwybr ar y chwith wrth y fforc ar wddf y penrhyn tuag at ochr ddeheuol y penrhyn. Dilynwch y llwybr Arfordir amlwg yn ôl tuag at Carn Llidi. Chwiliwch am risiau o'ch blaen ar y dde a dilynwch y llwybr i fyny'r grisiau a dilynwch Llwybr yr Arfordir yn ôl i'r maes parcio, gan gadw'n syth ymlaen wrth y groesfan.

Penmaendewi , Carn Llidi

Pellter: 1.4 milltir (2.3 km), allan ac yn ôl

Cyfeirnod map: SM736276

Cymeriad: Llwybr yn dirwyn at y pwynt uchaf ar benrhyn Tyddewi, gweundir agored.

Mwy o wybodaeth: RHAID CADW CŴN AR DENNYN ym Mhorthmawr Uchaf, cywion ieir buarth yn crwydro.

2 sticil. Grisiau.

O'r maes parcio, cerddwch yn ôl i fyny'r heol, anwybyddwch y trac cyntaf ar y chwith, a throwch i'r chwith heibio i'r maes carafannau. Dilynwch y trac o gwmpas i'r dde (dilynwch yr arwydd at olygfan Carn Llidi), trwy fferm, ac arhoswch ar y trac wrth y mynegbost. Dilynwch y trac i'r chwith, yna i'r dde, ac wrth y fforc wrth arwydd 'Penmaendewi/St David's Head' yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, cymerwch y llwybr i'r

dde. Parhewch i ddilyn y trac llydan i fyny ac wrth y pyst metel parhewch ar lwybr mwy cul i gopa'r olygfan. Dilynwch y trac yn ôl i'r maes parcio.

